CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **21 Ionawr 2025**

Teitl: **Adborth Craffu ar Orchymyn Arfaethedig Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Ceredigion 2025**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi adborth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 20 Ionawr 2025**

Cyflwynwyd cynigion yn ymwneud â Llefydd Parcio a reolir dan Orchmynion Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd Cyngor Sir Ceredigion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 11/07/2024 a'r Cabinet ar 03/09/2024,

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet i ddiwygio'r cynigion i gynnwys eithrio Deiliaid Bathodyn Glas rhag talu costau parcio Talu ac Arddangos, a oedd yn cynnwys diwygio'r strwythur codi tâl arfaethedig i ychwanegu 50c ychwanegol at bob tariff, roedd y cynigion diwygiedig yn ddarostyngedig i'r broses ymgynghori a ragnodir ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol a'r hyn a gyflwynwyd yn ystod cam yr Hysbysiad Cyhoeddus.

Argymhelliad
Nododd y Pwyllgor gynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac ystyriodd y cynigion ar gyfer y strwythur codi tâl a meysydd parcio Pendre a Rhes Gloster / Llew Coch yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac chefnogi'r pecyn o gynigion a gyflwynwyd.

Y Cynghorydd Marc Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus